***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 838 (Cy. 195)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU
# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *13 Gorffennaf 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *15 Gorffennaf* |
| *Yn dod i rym - -* | *5 Awst 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 7 o Atodlen 4 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**).

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 5 Awst 2021.

### Diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle Atodlen 1 rhodder—

(**1**) 2018 p. 16 ("Deddf 2018"). Mae Gweinidogion Cymru yn "appropriate authority" yn rhinwedd paragraff 8 o Atodlen 4 i Ddeddf 2018. Diwygiwyd ystyr "appropriate authority" ym mharagraff 8 o Atodlen 4 i Ddeddf 2018 gan adran 41(4) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) a pharagraff 47(5) o Atodlen 5 iddi.

(**2**) O.S. 2019/497 (Cy. 114), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/44 (Cy. 5); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

"ATODLEN 1

Rheoliad 3(2)

Ffioedd am arolygiadau mewn cysylltiad ag awdurdodiad pasbort planhigion

| *Math o arolygiad* | *Ffi* |
|---|---|
| Arolygiad ffisegol a gweithgareddau cysylltiedig (gan gynnwys amser teithio ac amser swyddfa) mewn cysylltiad â rhoi, amrywio neu atal dros dro awdurdodiad pasbort planhigion neu er mwyn monitro cydymffurfedd â'r awdurdodiad hwnnw— | |
| (a) hyd at a chan gynnwys yr awr gyntaf; | £49.50 |
| (b) wedi hynny, am bob 15 munud ychwanegol neu ran o'r cyfnod hwnnw | £12.38". |

(3) Yn lle Atodlen 4A rhodder—

"ATODLEN 4A

Rheoliad 3(5A)

Ffioedd mewn cysylltiad â chais am dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer allforio neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio: Cymru

| *Gwasanaeth* | *Ffi* |
|---|---|
| Ystyried cais, gan gynnwys dyroddi, pan fo'n briodol, tystysgrif ffytoiechydol ar gyfer allforio neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio | £21.00 |
| Archwilio neu brofi pren, cynhyrchion pren, rhisgl wedi ei wahanu neu beiriannau coedwigaeth a ddefnyddiwyd a gweithgareddau cysylltiedig (gan gynnwys amser teithio ac amser swyddfa)— | |
| (a) hyd at a chan gynnwys yr awr gyntaf; | £37.80 |
| (b) wedi hynny, am bob 15 munud ychwanegol neu ran o'r cyfnod hwnnw | £10.50". |

*Julie James*
Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru

13 Gorffennaf 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 7 o Atodlen 4 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) ac maent yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/497 (Cy. 114)).

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cynyddu'r ffioedd am wasanaethau mewn perthynas ag awdurdodiadau pasbortau planhigion a cheisiadau am dystysgrifau ffytoiechydol (gan gynnwys tystysgrifau ffytoiechydol ar gyfer ailallforio) i adlewyrchu cynnydd chwyddiannol o ran y gost o ddarparu'r gwasanaethau hynny ers cyflwyno'r ffioedd hynny. Mae'r ffioedd sy'n ymwneud ag awdurdodiadau pasbortau planhigion wedi cynyddu 34% ar gyfer y cyfnod rhwng 2006 a 2020, tra bod y ffioedd ar gyfer tystysgrifau allforio wedi cynyddu 40% ar gyfer y cyfnod rhwng 2004 a 2020 (yn seiliedig ar y Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr (CPIH)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.